Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH-/05008/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

16 Ionawr 2019

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr yn fy hysbysu am ddeiseb Sefydliad y Merched Malpas yn galw am gynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Rwy'n meddwl ei bod hi'n warthus bod rhai pobl yng Nghymru yn methu byw eu bywydau'n llawn bob dydd gan eu bod yn methu fforddio cynhyrchion misglwyf digonol i'w hunain a'u teuluoedd.

Efallai eich bod chi'n gwybod ein bod ni wedi dyrannu dros £1 miliwn o gyllid grant dros dair blynedd hyd at 2020 i awdurdodau lleol i helpu i drechu tlodi misglwyf a sicrhau urddas. Mae cyfran o'r cyllid hwn yn cael ei defnyddio i sicrhau bod toiledau ysgolion yn cynnwys cynhyrchion digonol fel bod pobl ifanc yn gallu ymdopi'n hyderus â'u misglwyf. Awdurdodau lleol sy'n deall anghenion eu cymunedau orau a phwy sydd angen y cymorth fwyaf. Maent wedi cael rhyddid i wario'r cyllid ar gyflenwi cynhyrchion misglwyf i bobl a fyddai'n methu eu fforddio fel arall drwy weithio gydag ysgolion, banciau bwyd a sefydliadau cymunedol eraill.

Mae yna enghreifftiau rhagorol o pa mor dda mae hyn yn gweithio ac rwy'n arbennig o falch o weld sut mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â phobl ifanc ac yn gwrando ar eu safbwyntiau o ran pa fath o ddarpariaeth a fyddai orau iddyn nhw. Bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol ac yn rhannu arferion gorau ledled Cymru fel y bo'n briodol.

Mae'n rhaid canmol ymrwymiad Llywodraeth yr Alban i ddarparu cynhyrchion misglwyf am ddim i bob disgybl a myfyriwr mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ac am eu cymorth



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

arbennig i gartrefi incwm isel. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yn yr Alban i gael y newyddion diweddaraf am y sefyllfa a pha wersi y gellir eu dysgu.

Un o'r cynigon ym maniffesto'r Prif Weinidog oedd hyrwyddo cynllun gweithredu i gefnogi urddas mewn perthynas â'r misglwyf a chynnal y buddsoddiad cyfredol mewn ysgolion. Bydd gwersi a ddysgwyd o raglenni eraill i fynd i'r afael â thlodi misglwyf, ac adborth gan awdurdodau lleol ar eu camau gweithredu yn helpu i lywio ein dull o fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip